# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**17 Mawrth 2026, Trwy Zoom am 7:00 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng R Hughes, S Jones, D ap Rhobert, M Jones, C McGregor, A Williams, E Williams, G D Williams, D Rees (Cynghorydd Sir), G Owen (Clerc | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng W Williams, A Wyn | |
| 1 | Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Cadeirydd Cyng R Hughes.<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| 2 | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitemau 4.4 a 5.3 Cyng R Hughes eitemau 4.4 a 5.3, Cyng M Jones eitemau 4.4 a 5.3, Cyng A Williams eitem 4.5 |
| 3 | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17.02.26. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. |
| 4 | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| 4.1 | **B5110 40myh** - Mae'r Cyngor Sir dal yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya. |
| 4.2 | **Sgwar Talwrn (damweiniau)** – Mae'r Cyngor Sir wedi contractio'r gwaith hwn allan ac yn aros iddo gael ei wneud. Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir ynglŷn â chael gwared â Bambŵ yng Nglanrafon. |
| 4.3 | **Wal Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** – Mae'r Clerc yn aros i'r gwaith gael ei wneud |
| 4.4 | **8 Maes y Coed, Talwrn** – Ymateb pellach y Cyngor Sir: Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2026. Yr wyf yn ymwybodol o rwystredigaethau aelodau'r Cyngor Cymuned oherwydd yr oedi wrth ddod â'r mater hwn i ben, a byddwn wrth gwrs yn rhoi diweddariad i'r Cyngor Cymuned pan fyddwn yn gwybod beth sy'n digwydd. Byddaf hefyd yn trosglwyddo eich pryderon ynglŷn â'r oedi i'n cyfreithwyr allanol.<br>Cytunodd yr aelodau ei bod hi'n bryd datrys y mater hwn. Gofynnwyd i'r Clerc wahodd y Swyddog Monitro a deiliad y Portffolio i gyfarfod nesaf y cyngor a chynnig presenoldeb yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. |
| 4.5 | **Porth Newydd/carafannau Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn aros am wybodaeth gan y Cyngor Sir. |
| 4.6 | **Llwybr Lon Goch Talwrn -** Bydd y Clerc yn cysylltu'n ôl â'r Cyngor Sir I ddweud bod y tyfiant wedi ail dechrau. |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 21.05.26 |

| | |
|---|---|
| | |
| **4.7** | **Glanrafon, Talwrn** - Mae'r Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir drefnu i'r holl bambŵ gael ei symud ac mae'n aros iddyn nhw gysylltu'n ôl ato. |
| **4.8** | **Gor-yrru Capel Coch** - Mae Ganbwyll wedi bod i Gapel Coch 2-3 gwaith. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad. |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | HHP/2026/34 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Cae Drain, Llangwyllog – dim sylwadau. |
| **5.2** | Ymgynghoriad - Gweledigaeth, Amcanion & Opsiynau a Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig - Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am fwy o amser i'r cyngor ymateb. |
| | **Adran Gyfreithiol** |
| **5.3** | 8 Maes y Coed – gweler 4.4 |
| | **Priffyrdd** |
| **5.4** | **Lon Gwaen -** Mae'r Cynghorydd Meurig Jones wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir i gwyno ynghylch cyflwr y ffordd hon. Mae ymateb wedi dod i law yn nodi eu bod yn gobeithio gallu ariannu atgyweiriadau i'r ffordd yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **5.5** | **Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol Adolygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol Mon 2026** - Cytunwyd y byddai aelodau'n anfon eu hymatebion unigol at y Cyngor Sir. |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Cyngor Gwynedd - Dyfynbris ar gyfer archwiliad mewnol 2025-2026 - £260.00 |
| **6.2** | Alun Foulkes - Dyfynbris ar gyfer archwiliad mewnol 2025-2026 - £200.00. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan Mr Foulkes. |
| **7** | **MATERION ERAILL** |
| **7.1** | Gor-yrru Talwrn - Cytunwyd y gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda. |
| **7.2** | Baw ci Lon y Capel - Cynigiodd y Cynghorydd R Hughes roi hysbysiad ar Facebook yn gofyn i berchnogion cŵn glirio ar ôl eu cŵn. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r AS ac Aelod y Cynulliad i drefnu i'r gyfraith gael ei gweithredu. |
| **7.3** | Damwain Llangwyllog - Cytunwyd tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda nes bydd y Cynghorydd A Wyn yn bresennol nesaf. |
| **7.4** | Bioamrywiaeth - Dywedodd y Clerc ei bod hi'n bryd diweddaru'r Cynllun Bioamrywiaeth. Awgrymwyd tyfu planhigion ger y gofeb yn Nhalwrn. |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 21.05.26 |

| | |
|---|---|
| | |
| **7.5** | Adolygu y cynllun Hyfforddiant - Adolygwyd y cynllun hyfforddi. Mae'r Clerc yn dosbarthu manylion cyrsiau i'r aelodau wrth iddynt gael eu derbyn. Dywedodd fod disgwyl i bob aelod fynychu o leiaf un sesiwn Cod Ymddygiad yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Dywedodd y Cynghorwyr E Williams, A Williams ac R Hughes eu bod yn dymuno cael eu rhoi ar gwrs Cod Ymddygiad. |
| **7.6** | Adolygu Costau Claddu - Cytunwyd i gynyddu'r holl ffioedd 10% o fis Tachwedd 2026. |
| **7.7** | Seddau gwag - Mae gan y cyngor sawl sedd wag. Bydd y Clerc yn trefnu iddynt gael eu hysbysebu. |
| **8** | **MATERION ARIANNOL** |
| **8.1** | Gwiriad cyllid chwarterol (31.12.25) - Mae'r gwiriad chwarterol wedi'i gwblhau gan y Cynghorydd S Jones. Diolchwyd iddo am wneud y gwaith. |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **8.2** | Costau y Clerc £219.40 |
| **8.3** | JRB Enterprises £287.94 (bagiau baw ci) |
| **8.4** | Alun Foulkes £150.00 (awdit mewnol 24/25) |
| **8.5** | Ceisiadau am gyllid: Mon FM, Apêl Cronfa Cyfle i Bawb Urdd Gobaith Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru - £200 yr un. |
| **9** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **9.1** | Tyllau – sgwar Talwrn hefyd sgwar I Lon Goch |
| **9.2** | Cyflwr y lon Eglwys Capel Coch - Maenaddwyn |
| | |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 21.05.26 |